



# Cynllun Pwnc Seicoleg

Tachwedd 2018

**CYMRAG**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### **Cyd-destun**

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae [‘Tuag at 2020 a thu hwnt’](#) yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae'r Cynllun Pwnc Seicoleg yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

### **Proses**

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau addysg uwch ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

### **Egwyddorion a Themâu**

Tra'r oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cynllun academaidd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf gyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

### **Strwythur y Cynllun**

Mae'r Cynllun Pwnc Seicoleg yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi, a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Seicoleg.

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu graddau Seicoleg. Gall y rheiny amrywio o gyrsiau gradd tair blynedd Seicoleg neu hefyd gwrs meistr 4 blynedd mewn Seicoleg. Hefyd, mae modd astudio cwrs Seicoleg Glinigol ac Iechyd, ynghyd â Seicoleg gyda Niwroseicoleg. Mae nifer o sefydliadau hefyd yn cynnig cwrs cydanrhydedd Seicoleg a Throsedddeg ac mae modd astudio Seicoleg gyda nifer o gyfuniadau pwnc eraill hefyd.

Gellir dewis opsiynau o astudio gradd Seicoleg dros 4 blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant, neu dramor.

Bu cynnydd arwyddocaol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Seicoleg. Ym Mangor gwelwyd y ddarpariaeth yn ymestyn i fwy na 40 credyd y flwyddyn, gan ddenu nifer cynaliadwy o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiad mewnol gan y Brifysgol.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi datblygu ei darpariaeth i gynnwys 20 credyd y flwyddyn. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cynnig tiwtor personol cyfrwng Cymraeg, ac mae angen ystyried ymhellach sut mae cyfrifo elfennau fel hyn yn rhan o'r profiad cyfrwng Cymraeg.

Mae Prifysgol Abertawe yn cydnabod pwysigrwydd dwyieithrwydd yn y maes Seicoleg ac yn awyddus i ddatblygu darpariaeth. Nid oes modiwlau Cymraeg wedi'u hachredu ar hyn o

bryd, ond cynigir cefnogaeth drwy sesiynau tiwtorial a seminarau yn y Gymraeg a rheiny wedi eu hwyluso gan fyfyrwr PhD, ond nid oes gwerth credydol i'r ddarpariaeth. Cynhaliwyd astudiaeth ddichonolrwydd er mwyn adnabod y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Abertawe ac ar sail y darlun cadarnhaol a ddaeth o hwnnw, mae camau wedi eu cymryd i ymateb a datblygu darpariaeth ar lefel israddedig. At hynny, mae dau fyfyrwr PhD a ariennir yn rhannol gan y Coleg Cymraeg yn astudio'r pwnc trwy'r Gymraeg.

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig cwrs ôl-radd mewn Seicoleg Addysg ac mae gofyn am fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ar y cwrs hwn. Maent hefyd yn darparu'r cwrs ôl-radd Seicoleg Glinigol ac mae cynlluniau hefyd i ddenu mwy o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg i astudio'r cwrs hwn.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2018, mae Prifysgol Bangor yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyrwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

| <b>Sefyllfa Gyfredol (2016/17)<sup>1</sup></b> |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <b>Sefydliad Addysg Uwch</b>                   | <b>Darpariaeth (fesul blwyddyn)</b>                          | <b>Staff</b>   | <b>Myfyrwyr</b>  |
| Prifysgol Bangor                               | O leiaf 40 credyd y flwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. | 4 aelod staff llawn amser a 1 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg.<br><br>3 aelod staff llawn amser a 1 aelod staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | 98 yn siarad Cymraeg Bl.1 – Bl.3.<br><br>O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.                            |
| <i>Prifysgol Aberystwyth</i>                   | <i>Rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg</i>       | <i>2 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg.</i><br><br><i>1 aelod staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>   | <i>21 yn siarad Cymraeg yn rhugl Bl.1 – Bl.3.</i><br><br><i>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>      |
| <i>Prifysgol Metropolitan Caerdydd</i>         | <i>Tiwtor personol cyfrwng Cymraeg</i>                       | <i>2 aelod o staff llawn amser sy'n siarad Cymraeg.</i><br><br><i>1 aelod o staff sy'n cynnig tiwtor personol drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel 4.</i>                   | <i>22 yn siarad Cymraeg yn rhugl Bl.1 – Bl.3.</i><br><br><i>10 myfyriwr lefel 4 yn derbyn tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.</i> |

---

<sup>1</sup> Data gan y sefydliadau

|                           |  |  |  |
|---------------------------|--|--|--|
| <i>Prifysgol Abertawe</i> | <i>Dim modiwlau penodol, ond cefnogaeth tiwtorial a seminarau a hwylusir gan fyfyrwr PhD</i>               | <i>0 aelod staff yn siarad Cymraeg<sup>2</sup></i>   | <i>83 yn siarad Cymraeg<br/>Llai na 6 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</i>  |
| <i>Prifysgol Caerdydd</i> | <i>Dim darpariaeth<br/>Darpariaeth ôl-radd anffurfiol ar y cyrsiau Seicoleg Addysg a Seicoleg Glinigol</i> | <i>1 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg</i> | <i>37 yn siarad Cymraeg<br/>0 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg<br/>(12 myfyrwr ôl-radd yn rhugl yn y Gymraeg)</i> |

---

<sup>2</sup> 1 myfyrwr ymchwil sy'n medru siarad Cymraeg ac am gyflwyno ei PhD drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

|                         |   |
|-------------------------|---|
| <b>Profiad Myfyrwyr</b> | <p>Mae profiad y myfyriwr yn ganolog i astudio gradd yn y ddwy iaith.</p> <p>Cynigir amrediad o brofiadau i fyfyrwyr gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg</li><li>• Seminarau cyfrwng Cymraeg</li><li>• Sesiynau galw i fewn ar ystadegaeth</li><li>• Mae prifysgolion Bangor ac Aberystwyth yn cynnig sesiynau mentora gan gymheiriaid</li><li>• Profiad gwaith neu interniaethau i fyfyrwyr Cymraeg ym Mangor</li><li>• Blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn dramor.</li></ul> <p>Yn 2013 a 2016, cynhaliwyd Cynhadledd Ymchwil Seicoleg lle cafodd myfyrwyr wahoddiad i gyflwyno posteri. Teimlir y byddai trefnu digwyddiad o'r fath yn magu hyder myfyrwyr i gyflwyno yn y Gymraeg. Yn ogystal, byddai gwahodd darlithwyr gwadd i brifysgolion i draddodi yn y Gymraeg yn galluogi myfyrwyr i elwa ar arbenigedd amrediad o ddarlithwyr.</p> <p>Mae Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg yn ffordd o feithrin sgiliau iaith ac yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr baratoi ar gyfer gwahanol elfennau'r dystysgrif.</p> |
| <b>Darlithwyr</b>       | <p>Addysgir y pwnc gan ddarlithwyr sy'n ymchwilwyr cydnabyddedig, a rhai ohonynt yn gymrodyr o'r Academi Addysg Uwch.</p> <p>Yn ogystal â'r arbenigedd, dyfarnwyd i Fangor Wobr Aur, y raddfa uchaf posibl yn arolwg y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu cenedlaethol 2017 (TEF). Dyfarnwyd Gwobr Aur hefyd i Brifysgol Abertawe (TEF2018).</p> <p>Yn ystod y blynyddoedd nesaf, rhagwelir mai darlithydd ag arbenigedd yn y maes Seicoleg Ymddygiadol yn y Gymraeg sydd ei angen er mwyn datblygu'r maes.</p> <p>Mae nifer o'r darlithwyr sydd bellach yn darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi derbyn ysgoloriaeth PhD gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae angen parhau i ddatblygu capasiti staffio a sicrhau bod cyfloedd</p>  |

|                             |  |
|-----------------------------|--|
|                             | ymchwil PhD yn cael eu cynnig mewn amrywiaeth o feysydd er mwyn sicrhau darlithwyr sy'n medru cynnig amrediad o fodiwlau/arbenigeddau.   |
| <b>Cwricwlwm</b>            | <p>Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r cynllun yn cynnig cyrsiau sydd wedi eu hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) sy'n galluogi graddedigion i gael aelodaeth o'r Gymdeithas. Mae gofynion achredu'r BPS yn lled gaeth, ond ar y llaw arall, rhydd hyn y cyfle i sefydliadau gydweithio yn y Gymraeg.</p> <p>Un elfen graidd ym mhob sefydliad yr achredir eu cyrsiau gan y BPS yw Dulliau Ymchwil, ac mae'r Coleg Cymraeg eisoes wedi comisiynu adnodd Dulliau Ymchwil a fydd o fantais i bob sefydliad sy'n dymuno darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Awgrymir bod angen sefydlu perthynas gryfach â'r BPS Cymreig (a'r adrannau) er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yng ngwaith y BPS yn fwy cyffredinol.</p>  |
| <b>Canlyniadau Myfyrwyr</b> | Tuedda boddhad myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg fod yn uwch, a theimlir fod hyn o ganlyniad i'r ymdeimlad o gymuned glòs a'r canfyddiad fod gan y darlithwyr fwy o amser i'r myfyrwyr. Mae ymatebion myfyrwyr i holiaduron cloriannu modiwlau yn dangos tystiolaeth fod bodlonrwydd myfyrwyr yn gyson uchel ar fodiwlau a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.  |
| <b>Adnoddau</b>             | <p>Mae nifer o erthyglau Seicoleg wedi eu cyhoeddi yn <i>Gwerddon</i> dros y blynyddoedd diwethaf drwy gefnogaeth y Coleg Cymraeg.</p> <p>Yn ogystal â hynny, datblygwyd e-lyfrau megis:<br/> <i>Agweddau ar Ddwyieithrwydd</i>, Enlli Môn Thomas a Peredur Webb-Davies <a href="http://bit.ly/2iwfj2Z">http://bit.ly/2iwfj2Z</a><br/> Mae'r e-lyfr hwn yn cyflwyno'r darlennydd i fyd y siaradwr dwyieithog, ac i herio nifer o fythau ynglŷn ag anfanteision – ac, yn wir, manteision – dwyieithrwydd. Y gobaith yw y bydd y darlennydd, o ddarllen y gyfrol hon, yn deall yn well natur ac anghenion unigolion sydd yn meddu ar sgiliau mewn dwy iaith.</p> <p><i>Rôl Ataliad mewn Dwyieithrwydd</i>, Dr Victoria Wright a Dr Rhian North <a href="http://bit.ly/2BNAjuw">http://bit.ly/2BNAjuw</a></p> |

|  |  |
|--|--|
|  | <p>Adnodd ar ffurf sleidiau PowerPoint sy'n edrych ar sut mae pobl ddwyieithog (sy'n rhugl neu'n datblygu eu Cymraeg) yn caffael pob un o'u hieithoedd ac yn eu defnyddio.</p> <p>Comisiynwyd Prifysgol Bangor gan y Coleg Cymraeg i Junio e-adnodd <i>Dulliau Ymchwil Seicoleg</i>. Bydd yr adnodd hwn, y disgwylir ei gwblhau erbyn Hydref 2019, yn ddefnyddiol ar gyfer y modiwlau dulliau ymchwil sy'n greiddiol i bob sefydliad, ac yn agored i bob myfyriwr Seicoleg yn y gwahanol sefydliadau.</p>  |
| <p><b>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</b></p> | <p>Rhoddir pwyslais cynyddol ar gyflogadwyedd graddedigion, a gwelir mwy o brifysgolion yn ymgorffori modiwlau profiad neu leoliad gwaith yn y cwricwlwm. Caiff myfyrwyr leoliadau amrywiol, megis yn y sector clinigol, addysgol, diwydiannol neu gymunedol. Ceir enghreifftiau o geisio anfon myfyrwyr sy'n dewis astudio yn y Gymraeg i leoliadau Cymreig, a lle nad yw hynny'n bosib, gofynnir i'r myfyrwyr ystyried sut fyddai'r Gymraeg yn cyfrannu at weithrediad y lleoliad hwnnw.</p> <p>Ceir enghreifftiau o brifysgolion yn trefnu digwyddiadau cyflogadwyedd i fyfyrwyr Seicoleg ar gyfer meddwl am yrfa ar ôl graddio. Mae gan Brifysgol Bangor berthynas dda ag Ysgol Glinigol Gogledd Cymru. Yn benodol, trefnwyd darlith gan Seicolegydd Clinigol i fyfyrwyr Cymraeg fel digwyddiad cyflogadwyedd. Yn y ddarlith, nodwyd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ym maes Seicoleg Glinigol, a'r heriau sy'n codi oherwydd diffyg staff a deunyddiau Cymraeg.</p> <p>Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o gyrsiau yn cynnwys opsiwn o flwyddyn mewn diwydiant.</p> <p>O safbwynt y prifysgolion sy'n rhan o'r cynllun hwn, mae o leiaf 89% o raddedigion mewn gwaith ac/neu yn dilyn astudiaethau pellach o fewn 6 mis ar ôl graddio.<sup>3</sup></p> <p>Mae swyddi sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gradd mewn Seicoleg yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Seicolegydd Clinigol</li> <li>• Seicolegydd Cwnsela</li> <li>• Seicolegydd Addysg</li> <li>• Seicolegydd Fforensig</li> <li>• Seicolegydd Iechyd</li> </ul> |

<sup>3</sup> <https://unistats.ac.uk/>



- Seicolegydd Galwedigaethol
- Seicolegydd Chwaraeon ac ymarfer corff
- Athrawon
- Gweithiwr iechyd meddwl
- Ymarferydd lles seicolegol.

Ymhellach, gall gradd mewn Seicoleg fod yn ddefnyddiol ar gyfer lliaws o yrfaedd eraill, megis gwasanaethau ymgynghorol, cwnsela, therapydd, ayyb. Yn wir, mae tua 80% o raddedigion Seicoleg yn y Deyrnas Gyfunol yn symud ymlaen i yrfaedd sy'n gysylltiedig â Seicoleg, neu'n dilyn gyrfa y tu allan i'r maes.<sup>4</sup>

Mae graddedigion Seicoleg Cymraeg eu hiaith yn aml yn cael eu derbyn ar gyrsiau ôl-raddedig a ddarperir gan Ysgol Glinigol Gogledd Cymru, gan arwain at yrfaedd mewn Seicoleg Glinigol.

Mae gan Brifysgol Bangor fodiwl blwyddyn gyntaf o'r enw 'Seicoleg Gymhwysol' lle y caiff myfyrwyr ddysgu am y gwahanol swyddi y gellid eu gwneud gyda gradd mewn Seicoleg. Gellid ystyried sut mae datblygu elfen Gymraeg i'r modiwl ar gyfer y dyfodol.

Mae cwrs Cwnsela MSc bellach yn rhedeg ym Mangor. Mae'r cwrs yn cynnwys modiwl Prosiect sydd werth 60 credyd (mae hanner y modiwl wedi ei seilio ar bortffolio a hanner ar brosiect ymchwil). Mae'n bosib iawn y gellid cwblhau'r 60 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r portffolio wedi ei seilio ar leoliad o fewn y GIG. Gall myfyrwyr fynd ar leoliad cyfrwng Cymraeg petaent yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg wrth wneud cais am leoliad.
- Gall y myfyrwyr gwblhau eu prosiect ymchwil yn y Gymraeg.
- Drwy ddatblygu'r modiwl hwn, cynyddir y ddarpariaeth Gymraeg a gynigir gan yr Ysgol, a chynyddir cyflogadwyedd y myfyrwyr Cymraeg.

Mae Prifysgol Abertawe yn datblygu cwrs gradd Seicoleg gyda blwyddyn mewn diwydiant.

Mae gan Brifysgol Caerdydd gwrs Seicoleg Addysg ôl-radd sy'n ymateb i alw gan y Llywodraeth lle y clustnodir lleoedd yn benodol i fyfyrwyr Cymraeg. Nodwyd bod hyn yn bwydo i'r strategaeth 'Mwy na Geiriau', sef y Gymraeg yn y gweithle iechyd.

<sup>4</sup> [Lantz, C. \(2011\), \*Psychology Student Employability Guide: From University to Career\*, The Higher Education Academy Psychology Network.](#)

|   | <p>Cydnabyddir bod panel iechyd eisoes wedi ei sefydlu gan y Coleg Cymraeg. Dylid ystyried ymhellach sut mae modd i'r panel hwn gydweithio gyda'r panel iechyd, yn enwedig yn y modd y dylid cryfhau'r cyswllt â rhai o'r sefydliadau iechyd hyn er mwyn creu strategaeth sy'n cynorthwyo gofynion recriwtio seicolegwyr a chydymffurfiant cyflogwyr gyda'r safonau iaith.</p>  |                     |                   |      |  |                     |                   |                     |                   |    |     |    |     |
|---|---|---------------------|-------------------|------|--|---------------------|-------------------|---------------------|-------------------|----|-----|----|-----|
| <p><b>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</b></p> | <p>Tuedd amlwg yw fod myfyrwyr sy'n dod i astudio Seicoleg wedi astudio Lefel A Seicoleg naill ai yn yr ysgol uwchradd neu mewn coleg Addysg Bellach.</p> <p>Mae dilyniant i astudio Seicoleg cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol yn uwch os yw'r myfyriwr wedi astudio Seicoleg Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dilyniant hefyd yn fwy amlwg os yw myfyrwyr wedi astudio Lefel A Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>5</sup></p> <table border="1" data-bbox="651 667 2072 772"> <thead> <tr> <th colspan="2">2015</th> <th colspan="2">2016</th> </tr> <tr> <th>Nifer y canolfannau</th> <th>Nifer o ymgeiswyr</th> <th>Nifer y canolfannau</th> <th>Nifer o ymgeiswyr</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>25</td> <td>117</td> <td>22</td> <td>146</td> </tr> </tbody> </table> <p><i>Tabl: Nifer y canolfannau ac ymgeiswyr sy'n derbyn papurau lefel A (safon uwch) Seicoleg cyfrwng Cymraeg</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Serch y duedd amlwg o ddilyniant rhwng Lefel A a'r brifysgol, mae enghreifftiau o gydweithio gyda'r sector Addysg Bellach. Mae'r cwrs cwrsela a gynigir ym Mhrifysgol Bangor wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad gyda Grŵp Llandrillo-Menai.</li> <li>- Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda Choleg Menai er mwyn sicrhau nad yw ei gofynion mynediad yn rhwystro myfyrwyr Addysg Bellach rhag wneud cais i ddilyn cwrs Seicoleg ym Mangor.</li> <li>- Er bod Prifysgol Bangor yn derbyn ceisiadau oddi wrth nifer o sefydliadau, mae'r mwyafrif o fyfyrwyr Cymraeg hŷn sy'n gwneud ceisiadau wedi mynychu Coleg Llandrillo neu Goleg Menai.</li> </ul> <p>Dylid nodi hefyd nad yw TGAU Seicoleg bellach yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Yn gyffredinol, nid yw graddau sylfaen mewn Seicoleg yn cael eu cynnig gan brifysgolion.</p> <p>Mae enghreifftiau o brifysgolion yn darparu cyrsiau blasu Seicoleg, ond mae'r patrwm yn <i>ad-hoc</i> ar y funud ac yn ymateb i geisiadau penodol gan ysgolion a cholegau.</p> | 2015                |                   | 2016 |  | Nifer y canolfannau | Nifer o ymgeiswyr | Nifer y canolfannau | Nifer o ymgeiswyr | 25 | 117 | 22 | 146 |
| 2015  |   | 2016                |                   |      |  |                     |                   |                     |                   |    |     |    |     |
| Nifer y canolfannau                                 | Nifer o ymgeiswyr   | Nifer y canolfannau | Nifer o ymgeiswyr |      |  |                     |                   |                     |                   |    |     |    |     |
| 25  | 117   | 22                  | 146               |      |  |                     |                   |                     |                   |    |     |    |     |

<sup>5</sup> [http://www.wjec.co.uk/Advanced%20Welsh%20Medium5yr&2016.pdf?language\\_id=1](http://www.wjec.co.uk/Advanced%20Welsh%20Medium5yr&2016.pdf?language_id=1)

|  |   |
|--|---|
|  | <p>Dylid gweithio gyda'r Swyddog Pwnc er mwyn adnabod ysgolion uwchradd a cholegau Addysg Bellach sy'n cynnig Seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn hynny, dylid ystyried ffyrdd o gydweithio er mwyn cefnogi myfyrwyr Safon Uwch a'u hannog i ystyried astudio Seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol.</p> |
|--|---|

| <b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>            |   |  |  |
|---|---|--|--|
| <b>Nod gweithredu</b>                                   | <b>Targedau blwyddyn<br/>(2017/18)</b>  | <b>Targedau 3 mlynedd<br/>(2019/20)</b>  | <b>Targedau 5 mlynedd<br/>(2021/22)</b>  |
| 1. Profiad y myfyriwr                                   | Archwilio cyfleoedd i wahodd darlithwyr gwadd i draddodi darlith neu gyfrannu at seminar. | Datblygu digwyddiad Seicoleg cyfrwng Cymraeg lle y bydd disgwyl i fyfyrwyr gyflwyno yn y Gymraeg, e.e. poster, er mwyn ehangu profiad a datblygu hyder y myfyrwyr. Fel man cychwyn, dylid sefydlu posibiliadau i gydweithio gyda'r BPS er mwyn trefnu sesiwn Gymraeg yn eu Cynhadledd Flynyddol.<br><br>Trefnu bod darlithwyr gwadd yn traddodi darlith. |  |
| 2. Darpariaeth  | Un brifysgol yn cynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.               | Un brifysgol yn cynnig o leiaf 60 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Un brifysgol yn cynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.   | Un brifysgol yn cynnig o leiaf 60 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Un brifysgol yn cynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 3. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg | 40 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.   | 80 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.  | 120 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.   |

|  |   |  |   |
|--|---|--|---|
| 4. Cyflogadwyedd   | <p>Gweithio gyda Swyddog Datblygu Cyflogwyr a Myfyrwyr y Coleg Cymraeg er mwyn adnabod cysylltiadau yn y byd gwaith.</p> <p>Casglu cyfeiriadau e-byst personol myfyrwyr sy'n graddio er mwyn cadw cysylltiad â hwy a chreu proffil ohonynt.</p> | <p>Gwahodd cysylltiadau o'r byd gwaith i draddodi mewn seminarau.</p> <p>Cynnal cynhadledd / gweithdy mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol bob dwy flynedd gan ddechrau yn 2020 er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnabod y gwahanol ymchwil sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd;</li> <li>• Adnabod pa adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd eu hangen yn y maes Seicoleg yn y GIG (e.e. holiaduron Cymraeg a.y.b.) / adnabod prosiectau ymchwil posibl mewn cydweithrediad â'r GIG.</li> </ul> | Cynllunio prosiectau ymchwil penodol mewn cydweithrediad â'r GIG, a chynnig y prosiectau ymchwil hyn fel interniaethau i fyfyrwyr Seicoleg. |
| 5. Sicrhau capasiti staffio digonol ac arbenigedd amrywiol drwy sicrhau cyflenwad cyson o fyfyrwyr PhD Cymraeg ym maes Seicoleg. | O leiaf dau PhD y flwyddyn (gyda sylw penodol i Seicoleg Ymddygiadol.   | O leiaf un PhD y flwyddyn.   | O leiaf un PhD y flwyddyn.  |
| 6. Dilyniant   | Cydweithio gyda'r Swyddog Pwnc er mwyn adnabod ysgolion sy'n cynnig Seicoleg Safon Uwch yn y Gymraeg a dechrau archwilio posibiliadau cynnal sesiynau blasu ar eu cyfer.  | Trefnu a chynnal sesiynau blasu Seicoleg i ddisgyblion ysgol.  | Gwerthuso adborth a cheisio dilyn hynt a helynt y myfyrwyr a fynychodd sesiynau blasu.  |
| 7. Adnoddau  | Paratoi, gan gynnwys casglu mewnbyn sefydliadau am yr e-lawlyfr <i>Dulliau Ymchwil Seicoleg</i> .   | Cyhoeddi'r e-lawlyfr <i>Dulliau Ymchwil Seicoleg</i> .   | Hyrwyddo'r e-lawlyfr <i>Dulliau Ymchwil Seicoleg</i> .  |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
|  | Ymgynghori gyda CBAC a Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu pa fath o adnodd pontio a fyddai'n ddefnyddiol. |  |  |
|--|--|--|--|

| Datblygu'r maes: targedau sefydliadol |                        |   |   |  |
|---------------------------------------|------------------------|---|---|--|
| Sefydliad                             | Nod gweithredu         | Targedau blwyddyn (2017/18)   | Targedau 3 mlynedd (2019/20)  | Targedau 5 mlynedd (2021/22)   |
| <b>Prifysgol Bangor</b>               | Darpariaeth            | O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.   | O leiaf 60 credyd ym mhob blwyddyn.                                   | Cynnig cyfanswm o 240 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg dros dair blynedd, gydag isafswm o 60 credyd ym mhob blwyddyn. |
|                                       | Myfyrwyr               | 15 o fyfyrwyr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.                                 | 20 o fyfyrwyr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.     | 20 o fyfyrwyr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.  |
|                                       | Staff                  | 4 aelod staff.  | 5 aelod staff.  | 5 aelod staff.   |
|                                       | Profiad y myfyriwr     | Ehangu'r ddarpariaeth yn yr ail flwyddyn drwy gynnis seminarau Cymraeg ar ddau fodiwl ychwanegol. |   | Cynnal seminarau Cymraeg, lle y gwahoddir darlithwyr / myfyrwyr PhD i roi cyflwyniad ymchwil i'r myfyrwyr.         |
|                                       | Canlyniadau'r myfyrwyr | Datblygu hyder myfyrwyr drwy gynnis sesiynau cymorth ieithyddol.                                  | Ystyried ffyrdd o gynnis y sesiynau sgiliau o fewn yr Ysgol Seicoleg. |  |
|                                       | Cyflogadwyedd          | Datblygu mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr wrth astudio Seicoleg.                       | Darparu mwy o brofiadau gwaith i fyfyrwyr.                            | Darparu mwy o brofiadau gwaith i fyfyrwyr, gan gynnwys mewn safleoedd clinigol.                                    |
|                                       | Adnoddau               | Paratoi, gan gynnwys casglu mewnbwn sefydliadau am yr e-lawlyfr <i>Dulliau Ymchwil Seicoleg</i> . | Cyhoeddi'r e-lawlyfr <i>Dulliau Ymchwil Seicoleg</i> .                | Golygu'r adnoddau ar-lein sydd wedi eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.    |
| <b>Prifysgol Aberystwyth</b>          | <i>Darpariaeth</i>     | <i>Rhywfaint yn y Gymraeg.</i>  | <i>Rhywfaint yn y Gymraeg.</i>  | <i>Rhywfaint yn y Gymraeg.</i>   |
|                                       | <i>Myfyrwyr</i>        | <i>3 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>                             | <i>5 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>          | <i>8 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>   |

|                               |                         |   |  |   |
|-------------------------------|-------------------------|---|--|---|
|                               | <i>Staff</i>            | <i>1 llawn amser parhaol.</i>   | <i>2 llawn amser.</i>  | <i>2 llawn amser.</i>   |
| <b>Prifysgol Met Caerdydd</b> | <i>Darpariaeth</i>      | <i>Tiwtor personol cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r profiad cyfrwng Cymraeg.</i> | <i>20 credyd y flwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>  | <i>40 credyd y flwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>   |
|                               | <i>Myfyrwyr</i>         | <i>10 myfyriwr yn derbyn tiwtor personol drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>        | <i>6-10 myfyriwr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>  | <i>15-20 myfyriwr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>  |
|                               | <i>Staff</i>            | <i>2 aelod staff llawn amser.</i>   | <i>3 aelod staff llawn amser.</i>  | <i>3 aelod staff llawn amser.</i>   |
| <b>Prifysgol Abertawe</b>     | <i>Darpariaeth</i>      | <i>Rhywfaint yn y Gymraeg.</i>  | <i>Rhywfaint yn y Gymraeg.</i><br><i>Darparu seminarau Cymraeg ar fodiwlau ystadegau a methodolegau ymchwil cyfrwng Saesneg, gan annog cyflwyno gwaith yn y Gymraeg i'w asesu. Goruchwylio ac asesu traethodau hir a phrosiectau ymchwil israddedig.</i> | <i>Rhywfaint yn y Gymraeg.</i><br><i>Darparu seminarau Cymraeg ar fodiwlau ystadegau a methodolegau ymchwil cyfrwng Saesneg.</i><br><i>Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth pwnc-benodol ychwanegol yn y Gymraeg.</i> |
|                               | <i>Myfyrwyr</i>         | <i>Dim targed wedi'i osod.</i>  | <i>4 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>   | <i>6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>  |
|                               | <i>Staff</i>            | <i>0 aelod staff.</i>   | <i>Archwilio'r posibilrwydd o benodi 1 aelod staff llawn amser.</i>  | <i>1 aelod staff llawn amser.</i>   |
|                               | <i>Profiad Myfyrwyr</i> | <i>Darparu tiwtor personol cyfrwng Cymraeg i bob siaradwr Cymraeg.</i>      | <i>Darparu tiwtor personol cyfrwng Cymraeg i bob siaradwr Cymraeg.</i>   | <i>Darparu tiwtor personol cyfrwng Cymraeg i bob siaradwr Cymraeg.</i>  |



|                           |                           |   |   |   |
|---------------------------|---------------------------|---|---|---|
|                           |                           | <p><i>Datblygu hyder myfyrwyr drwy gynnig sesiynau cymorth ieithyddol.</i></p> <p><i>Parhau i drefnu cyfle i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg wirfoddoli mewn digwyddiadau/ gweithgareddau Seicoleg, megis yn Eisteddfod yr Urdd.</i></p> | <p><i>Datblygu hyder myfyrwyr drwy gynnig sesiynau cymorth ieithyddol.</i></p> <p><i>Parhau i drefnu cyfle i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg wirfoddoli mewn digwyddiadau/ gweithgareddau Seicoleg, megis yn Eisteddfod yr Urdd.</i></p> | <p><i>Datblygu hyder myfyrwyr drwy gynnig sesiynau cymorth ieithyddol.</i></p> <p><i>Parhau i drefnu cyfle i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg wirfoddoli mewn digwyddiadau/ gweithgareddau Seicoleg, megis yn Eisteddfod yr Urdd.</i></p> |
|                           | <i>Cyflogadwyedd</i>      | <i>Datblygu cyfleoedd profiad gwaith yn y maes Seicoleg i'r myfyrwyr</i>  | <i>Datblygu cyfleoedd profiad gwaith yn y maes Seicoleg i'r myfyrwyr gan anelu at gyflwyno gradd a blwyddyn mewn diwydiant.</i>   | <i>Datblygu cyfleoedd profiad gwaith yn y maes Seicoleg i'r myfyrwyr o a chyflwyno gradd a blwyddyn mewn diwydiant.</i>   |
| <b>Prifysgol Caerdydd</b> | <i>Darpariaeth</i>        | <i>Ystyried sut i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr ysgol.</i>  | <i>Datblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>   |   |
|                           | <i>Myfyrwyr</i>           | <i>Datblygu strategaeth i ddenu mwy o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar y cyrsiau ôl-radd.</i>  | <i>Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar y cwrs ôl-radd Seicoleg Clinigol.</i>   | <i>O leiaf 6 ym mhob blwyddyn</i>   |
|                           | <i>Staff</i>              | <i>3 aelod o staff</i>  | <i>3 aelod o staff</i>  | <i>3 aelod o staff</i>  |
|                           | <i>Profiad y myfyriwr</i> | <p><i>Trefnu seminar/au Cymraeg lle y gwahoddir myfyriwr PhD i roi cyflwyniad ymchwil i'r myfyrwyr.</i></p> <p><i>Trefnu cyfle i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg wirfoddoli mewn</i></p>   | <i>Blaengynllunio lleoliadau gwaith dwyieithog ar gyfer myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg.</i>  |   |

|  |  |   |  |  |
|--|--|---|--|--|
|  |  | <i>digwyddiadau/gweithgareddau<br/>Seicoleg, megis yn yr<br/>Eisteddfod Genedlaethol.</i> |  |  |
|--|--|---|--|--|